



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Compostio

Gellir cynhyrchu compost o amrywiaeth eang o ddeunyddiau, megis tail da byw, gwastraff coed a gardd. Compostio yw'r **“broes naturiol o ddadelfennu deunyddiau bioddiradwy trwy gymysgu, hunan-gynhesu ac awyru i ffurfio deunydd sefydlog sy'n debyg i bridd”**.

Manteision tail buarth wedi'i gompostio

Mae'r deunydd organig mewn tail buarth wedi'i gompostio yn fwy sefydlog na mewn tail buarth ffres felly mae'n cynhyrchu gwell cyflyrdd ar gyfer pridd, sy'n gallu gwella pH pridd a'i allu i gadw maetholion. Mae gan dail buarth wedi'i gompostio lai o gyfaint, mae'n costio llai i'w wasgaru, mae ganddo lai o bathogenaau ac arogl, llai o risg o lygru dyfrgyrsiau, llai o chwyn byw na thail buarth ffres, ac mae'n lleihau halogiad y tir glas.



Sut mae compostio tail yn gweithio?

Mae micro-organebau sy'n bresennol yn y tail yn naturiol yn dadelfennu'r deunydd organig ac mae hynny'n rhoi ffynhonnell carbon i'r microbau a ffynhonnell nitrogen ar gyfer atgynhyrchu a chynhyrchu protein. Mae tail buarth gwartheg ar wellt yn cynnwys cymhareb carbon:nitrogen delfrydol o oddeutu 30:1.



Bydd gadael tail buarth mewn tomen i “bydru” yn arwain at ddadelfennu ychydig ar ôl 6 mis ond nid yw'n cynhyrchu compost. Gellir cynhyrchu tail buarth wedi'i gompostio'n dda o fewn 12-20 wythnos drwy ddarparu digon o aer a dŵr i ficrobau allu dadelfennu'r deunydd organig.

Er mwyn cynhyrchu compost da o dail buarth, dylech:

- Greu tomen hir a chul o dail buarth i wella'r gymhareb rhwng arwynebedd a chyfaint a galluogi mwy o aer i ddod i mewn yn ogystal â galluogi dŵr i redeg o'r domen
- Troi a chymysgu, ac os mae'n sych, ychwanegu dŵr er mwyn cynnal y tymheredd delfrydol (70°C)
- Compostio dan do neu orchuddio'r domen rhag y glaw i leihau dŵr ffo a cholledion maetholion



Dylai'r holl ddeunydd compostio gael ei leoli er mwyn atal unrhyw ddŵr ffo rhag cael mynediad i ddyfrgyrsiau, gweler **“Protecting our Water, Soil and Air: A Code of Good Agricultural Practice for farmers, growers and land managers”**

Gwerth Tail Buarth wedi'i gompostio

Mae compost yn cynnwys maetholion gwerthfawr ac yn cynyddu cynnwys hwmws a deunydd organig yn y pridd. Ychydig iawn o 'werthoedd safonol' sydd ar gael felly gall dadansoddiad labordy roi canllaw defnyddiol ar gyfer lefelau maeth mewn sypiau gwahanol.

Fermigompostio: ffordd arall o reoli gwastraff organig

Mae **pryfed genwair** yn ogystal â microbau'n gweithio i ddadelfennu gwastraff organig sy'n digwydd yn gyflymach yn ystod y broses fermigompostio. Mae pryfed genwair yn dadelfennu'r deunydd organig trwy weithred ffisegol, sydd hefyd yn cynyddu trosiant ac yn awyru'r compost. Mae hyn yn ei dro'n galluogi organebau a microbau eraill i weithio'n gynt.

Mae fermigompostio hefyd yn creu mwy o bryfed genwair, sydd hefyd yn werthfawr ac felly o fantais i gynhyrchiant y busnes.



Beth sy'n effeithio ar y broses fermigompostio?

Mae statws maetholion y deunydd sy'n cael ei greu trwy fermigompostio yn dibynnu ar y **deunydd crai**. Bydd cymhareb C:N y deunydd bwydo yn effeithio ar bryfed genwair trwy ddylanwadu ar eu cyfraddau twf ac atgynhyrchu. Mae **pH** y deunydd crai hefyd yn bwysig. O ganlyniad i ddylanwad gweithgaredd pryfed genwair fodd bynnag, mae lefelau maeth yn dueddol o fod yn uwch mewn fermigompost na chompost traddodiadol.

Mae'n rhaid i bryfed genwair a ddefnyddir yn y broses fermigompostio fod yn:

- gallu bwyta a threulio llawer o ddeunydd organig yn sydyn;
- gallu goroesi newidiadau mewn tymheredd a lleithder yn y domen gompost;
- a gallu atgynhyrchu, tyfu ac aeddfedu'n sydyn



O'r tri maith o bryfed genwair (aneceig, endogeig ac epigeig) pryfed genwair epigeig (rhai sy'n byw yn haen arwynebol y pridd) yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer fermigompostio gan eu bod yn byw mewn haenau llorweddol ac yn bwydo'n bennaf ar ddeunydd organig sy'n pydru.

Darllen pellach:

Fermigompostio: ffordd arall o drin gwastraff organig

Awdur: Dr William Stiles: IBERS, Prifysgol Aberystwyth.

Papur: Compost: the effect on nutrients, soil health and crop quantity and quality.

Awdur: Roger Hitchings, Canolfan Ymchwil Organig, Elm Farm

Taflen dechnegol: Compost - the effects on nutrients, soil health and crop production. IOTA.

Awdur: Roger Hitchings.

Erthygl: Composting with rock phosphate: increasing plant-available P.

Awdur: Mark Measures (Institute of Organic Training and Advice)

Gwefan WRAP www.wrap.org.uk a chwiliwch am y gair compost.

